# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**FFORWM CYLLIDEB YSGOLION**

Dyddiad ac Amser

**3.45 y.h., DYDD LLUN, 29AIN MEHEFIN, 2026**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

Pwynt Cyswllt

**Jasmine Jones**

**01286 679667**

**JasmineJones@gwynedd.llyw.cymru**

# FFORWM CYLLIDEB YSGOLION

AELODAETH

## AELODAU CABINET

Cynghorydd Dewi Jones (Addysg)
Cynghorydd Huw Wyn Jones (Cyllid)

## PRIF WEITHREDWR

Mr Dafydd Gibbard

## PENNAETH CYLLID

Mr Dewi A Morgan

## PENAETHIAID UWCHRADD

Ms Jano Owen – Ysgol Bro Idris
Mr Aled Williams – Ysgol Ardudwy
Mr Dylan Jones – Ysgol Brynrefail
Rhian Parry Jones – Ysgol Dyffryn Nantlle

## PENAETHIAID CYNRADD

Mr Gwion Owens – Ffederasiwn Cefn Coch a Thalsarnau
Ms Nia Puw – Ysgol Llanrug
Mr Alan Wynn Jones – Ysgol Cymerau
Sian Humphreys – Pennaeth Ysgol Y Traeth
Sedd Wag
Sedd Wag

## UNDEBAU ATHRAWON

Mr Clive Thomas – Ysgol Syr Hugh Owen

## LLYWODRAETHWYR

**Arfon**

Cynghorydd Ioan Thomas – Ysgol y Gelli a Ysgol Syr Hugh Owen
Cemlyn Williams – Ysgol Maesincla

**Meirionnydd**

Ms Carys Meleri Fowles – Ysgol Penybryn a Ysgol Tywyn
Mr Eifion Roberts – Ysgol Godre'r Berwyn

**Dwyfor**

Cynghorydd Gwilym Jones – Ysgol Borthygest
Cynghorydd Gwynfor Owen – Ysgol Hafod Lon

## ESGOBAETH

Ms Joanna Thomas – Ysgol y Faenol

## YSGOLION EGLWYS

Mr Aled Williams – Pennaeth Ysgol Y Faenol

## YSGOLION ARBENNIG

Mrs Donna Roberts – Ysgol Hafod Lon

# RHAGLEN

**1. CROESO**

**2. ETHOL CADEIRYDD**

I ethol Cadeirydd ar gyfer 2026 / 2027.

**3. ETHOL IS-GADEIRYDD**

I ethol Is-gadeirydd ar gyfer 2026 / 2027.

**4. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**5. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**6. COFNODION** 5 - 10

I gadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 17/02/25.

*(Copi wedi'i atodi)*

**7. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

I drafod unrhyw faterion sy'n codi o'r cofnodion nad ydynt yn ymddangos ar y Rhaglen.

**8. BALANSAU YSGOLION 31/03/2026**

I'w gyflwyno gan Kathy Wyn Bell (Cyfrifydd Grŵp – Ysgolion).

*Adroddiad i ddilyn*

**9. FFORMIWLA CYLLIDO YSGOLION UWCHRADD**

I'w gyflwyno gan Gwern ap Rhisiart (Pennaeth Addysg).

**10. CYTUNDEBAU LEFEL GWASANAETH**

I'w gyflwyno gan Debbie Anne Jones (Pennaeth Cynorthwyol – Gwasanaethau Addysg).

**11. EITEMAU RHAGLEN WAITH**

**12. UNRHYW FATER ARALL**

# FFORWM CYLLIDEB YSGOLION
# 17.02.2025

**Yn bresennol:**

**Aelodau Cabinet:** Y Cynghorwyr Huw Wyn Jones (Cyllid) a Dewi Jones (Addysg)

**Penaethiaid Ysgolion:**

Uwchradd: Aled Williams (Ysgol Ardudwy)

Cynradd: Richard Derwyn Jones (Ysgol Chwilog) (Cadeirydd)
Alan Wynn Jones (Ysgol Cymerau)
Eleri Morgan Davies (Ysgol y Gorlan)
Kyle Jones (Ysgol yr Hendre)

**Llywodraethwyr:** Y Cynghorydd Ioan Thomas (Ysgol y Gelli ac Ysgol Syr Hugh Owen)
Carys Meleri Fowles (Ysgol Penybryn ac Ysgol Tywyn)
Y Cynghorydd Gwynfor Owen (Ysgol Hafod Lon)

**Ysgolion Eglwys:**

**Ysgolion Arbennig:**

**Esgobaeth:**

**Undebau Athrawon:**

**Sylwedydd:** Gwern ap Rhisiart (Pennaeth Addysg)
Debbie Anne Williams Jones (Pennaeth Cynorthwyol: Gwasanaethau Corfforaethol)
Kathy Bell (Cyfrifydd Grŵp Ysgolion)

**Swyddogion:** Dewi Aeron Morgan (Pennaeth Cyllid) a Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:

- Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr)
- Y Cynghorydd Gwilym Jones (Llywodraethwr Dwyfor: Ysgol Borthygest)
- David Healey (Ysgol Friars)
- Nia Puw (Ysgol Gynradd Llanrug)
- Jano Owen (Ysgol Bro Idris)
- Gwion Owens (Ffederasiwn Cefn Coch a Thalsarnau)

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Fforwm a gynhaliwyd ar 02 Rhagfyr, 2024 fel rhai cywir.

## 5. MATERION YN CODI O'R COFNODION

Dim i'w nodi.

## 6. GWASANAETH ANSAWDD ADDYSG

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Pennaeth Addysg.

Eglurwyd bod yr adroddiad yn cael ei gyflwyno ar gais yr Aelodau er mwyn rhannu gwybodaeth ar sut mae'r adran yn dyrannu cyllideb er mwyn cefnogi safonau mewn ysgolion yng Ngwynedd.

Cadarnhawyd bod cyllideb o oddeutu £669,000 wedi ei osod ar gyfer materion rheolaethol yr Adran ar gyfer y flwyddyn ariannol 2025/26. Manylwyd bod y gyllideb hon yn ariannu cyflogau nifer o swyddogion yr Adran yn ogystal â darparu cefnogaeth i reolaeth gwasanaethau megis arlwyo, glanhau a moderneiddio.

Tynnwyd sylw at dair grant benodol gan nodi bod ansicrwydd wedi bod yn ddiweddar ynghylch faint o arian y grantiau hyn byddai'n cyrraedd yr Adran gan y Llywodraeth. Pwysleisiwyd eu bod yn grantiau pwysig gan eu bod yn cael eu defnyddio i gefnogi ailstrwythuro, Gwasanaeth Gwella Ysgolion a'r model cenedlaethol newydd i gefnogi ysgolion. Manylwyd ar y grantiau hyn gan gadarnhau bod yr Adran wedi derbyn oddeutu £200,000 drwy'r Grant Safonau. Eglurwyd bod yr arian yma yn cael ei glustnodi i GwE er mwyn cefnogi Gwasanaeth Gwella Ysgolion. Ymhelaethwyd bod £110,000 wedi cael ei dderbyn drwy grant Dysgu Proffesiynol, gan nodi bod y ffigwr hwn yn is na'r cyllid a ddarparwyd ar gyfer 2024/25. Tynnwyd sylw bod y grant hwn wedi cael ei ddyrannu i GwE yn y gorffennol ond cadarnhawyd bydd yr Adran yn dal ei afael arno yn ystod 2025/26. Yn debyg, tynnwyd sylw at grant o oddeutu £345,000 a dderbyniwyd ar gyfer cefnogi Cwricwlwm, gan gadarnhau bod yr arian hwn yn cynnwys oddeutu £98,000 er mwyn cefnogi llythrennedd a rhifedd, sydd yn gyllideb newydd ar gyfer 2025/26.

Adroddwyd bod cyllideb o £1,990,706 er mwyn ariannu gwasanaethau cefnogi safonau ar gyfer y flwyddyn ariannol 2025/26.

Eglurwyd bod Gwasanaeth Gwella ysgolion GwE yn dirwyn i ben a chadarnhawyd bod yr Adran yn cynnig ymgynghoriad ar strwythur newydd i gefnogi ysgolion a fyddai'n cynnwys rôl Pennaeth Cynorthwyol Cefnogi Ysgolion yn ogystal â Swyddogion Cefnogi Ysgolion a fyddai'n cyflawni gwaith swyddog addysg gyffredinol yn ogystal â gwaith ymgynghori cefnogi gwelliant. Pwysleisiwyd bod sylwadau wedi cael eu derbyn gan aelodau staff a all newid y model hwn, megis sicrhau bod arbenigeddau pwnc yn cael eu hystyried

Materion yn codi o'r drafodaeth:

Gofynnwyd a oes cydweithio rhanbarthol yn digwydd o fewn y strwythur newydd. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Pennaeth Addysg nad oes cynllun i sefydlu gwasanaeth ar y cyd gyda Chyngor Sir Ynys Môn. Fodd bynnag, cadarnhawyd bod cytundeb cydweithio er mwyn sicrhau

bod adnoddau ac arbenigedd yn cael eu rhannu er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth gorau yn cael ei ddarparu i holl ysgolion. Ymhelaethwyd bod yr Adran mewn trafodaethau gyda Chyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy a Chyngor Sir Ceredigion er mwyn datblygu cytundeb cyffelyb er bod modelau llywodraethiant yn amrywiol o sir i sir.

**7. CYLLIDEB 2025/26**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Pennaeth Cyllid.

Eglurwyd bod y gyllideb ar gyfer 2025/26 wedi cael ei gyflwyno ar ffurf drafft i Aelodau Etholedig mewn cyfres o seminarau anffurfiol. Nodwyd hefyd bod y gyllideb drafft wedi cael ei graffu gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 06 Chwefror ac wedi derbyn ystyriaeth gan y Cabinet ar 11 Chwefror. Ychwanegwyd bydd penderfyniad ffurfiol yn cael ei wneud ar y gyllideb wedi i'r Cyngor Llawn rhoi ystyriaeth iddo yn y cyfarfod ar 06 Mawrth.

Cadarnhawyd bod y Cyngor wedi derbyn cynnydd grant Llywodraeth o 3.1% ar gyfer 2025/26. Nodwyd bod hyn yn uwch na'r gyfran a dybiwyd byddai'r Cyngor yn ei dderbyn ond nad oedd y cynnydd hwn yn cyfarch y cynnydd mewn cyfraddau chwyddiant dros y blynyddoedd diwethaf. Pwysleisiwyd bod y Cyngor yn ymgyrchu i'r Llywodraeth fel eu bod yn gosod isafswm o lefelau grant yn flynyddol ar gyfer yr holl awdurdodau lleol.

Rhagwelwyd bod cynnal gwasanaethau'r Cyngor yn costio £24.2miliwn yn fwy yn 2025/26 o'i gymharu â'r flwyddyn ariannol gyfredol, gan gynnwys gwariant o £7.7miliwn er mwyn cyfarch pwysau ar gyllidebau'r gwasanaethau uwchlaw chwyddiant, sy'n deillio o orwariant yn sgil diffyg cyllideb i gyfarch gwir alw am wasanaethau.

Adroddwyd bod pwysau ar wasanaethau a chwyddiant yn arwain at argymhelliad o gynnydd o 8.66% yn y Dreth Cyngor, yn ogystal â chyflwyno rhaglen o arbedion a thoriadau er mwyn gosod cyllideb gytbwys ar gyfer 2025/26. Cydnabuwyd bod y Cyngor yn ymwybodol bod hyn yn gynnydd sylweddol a fyddai'n effeithio aelwydydd Gwynedd.

Pwysleisiwyd bod Cabinet Cyngor Gwynedd wedi cymeradwyo arbedion gwerth £5.2miliwn ar gyfer cyllideb 2024/25, gyda £2,860,300 ohono wedi eu proffilio ar gyfer 2025/26. Ymhelaethwyd bydd arbedion newydd yn cael eu cyflwyno o fewn y Cyngor. Tywyswyd yr Aelodau drwy grynodeb o'r arbedion hyn ar gyfer holl adrannau'r Cyngor. Tynnwyd sylw at arbedion gwerth £151,960 o fewn yr Adran Addysg gan bwysleisio nad oes unrhyw doriad neu gynllun arbedion i'r Gwasanaeth Ysgolion o fewn y flwyddyn ariannol 2025/26. Fodd bynnag, atgoffwyd bod demograffi yn effeithio yn negyddol ar gyllidebau ysgolion dros y flwyddyn nesaf.

Manylwyd ar wahanol elfennau o'r gyllideb ysgolion gan nodi:

- Cadarnhawyd bydd cynnydd arferol yn y cwantwm ysgolion Gwynedd yn 2025/26, gan fod polisïau'r Cyngor yn nodi'r angen i ariannu chwyddiant, incrementau cyflog a demograffi, yn wahanol i rai awdurdodau lleol eraill. Er hyn, eglurwyd bod demograffi yn elfen negyddol yng nghyllideb 2025/26 oherwydd lleihad mewn niferoedd disgyblion.
- Eglurwyd bod cyllideb ysgolion yn cynyddu £3.1miliwn yn 2025/26 er mwyn cyfarch cynnydd mewn chwyddiant yn ogystal â chwyddiant cyfraddau tâl a lefelau pensiwn athrawon. Nodwyd bydd cynnydd i lefelau cyflogau athrawon a staff ategol a all gael eu cadarnhau o fewn y flwyddyn ariannol.
- Ymhelaethwyd bod cynnydd mewn cyfraniadau cyflogwr o 5% ar bensiynau athrawon ers Ebrill 2024.
- Adroddwyd bod cynnydd o £1.9miliwn mewn cost yswiriant gwladol cyflogwr yn 2025/26. Eglurwyd bod hyn yn deillio o gyhoeddiad Llywodraeth y Deyrnas Unedig i gynyddu'r

gyfradd cyflogwr o 13.8% i 15.0%. Ymhelaethwyd bod trothwy Yswiriant Gwladol wedi lleihau o £9,100 i £5,000 sydd yn rhoi pwysau ychwanegol ar y Cyngor oherwydd yr angen i dalu yswiriant gwladol cyflogwr ar gyfer pob unigolyn sydd yn derbyn cyflog o £5,000 neu fwy yn flynyddol. Tynnwyd sylw bod y Llywodraeth wedi nodi y byddent yn ariannu'r cynnydd hwn mewn cyfraddau yswiriant gwladol cyflogwr o fewn y sector gyhoeddus, gan nodi y bydd cadarnhad pellach yn cyrraedd y Cyngor ymhen rhai misoedd.

- Rhagwelwyd bydd cyllidebau ysgolion yn ei gyfanrwydd yn lleihau £643,000 o ganlyniad i ddemograffi. Manylwyd bod hyn yn lleihad o £415,000 i'r sector Gynradd ac £228,000 o leihad ar gyfer y sector Uwchradd. Pwysleisiwyd bydd cyllidebau ysgolion uwchradd yn amrywio er mwyn adlewyrchu niferoedd disgyblion.
- Nodwyd nad oes unrhyw sail i ystyried bod dyraniadau grantiau penodol Llywodraeth Cymru yn y maes addysg yn cael ei addasu o'r hyn a ddyrannwyd yn 2024/25.

Casglwyd y bydd cyllideb ysgolion yn uwch yn 2025/26 o'i gymharu â'r flwyddyn ariannol gyfredol.

Materion yn codi o'r drafodaeth:

Tynnwyd sylw bod oddeutu 400 o blant yn cael eu haddysgu gartref yng Ngwynedd ac Ynys Môn a gofynnwyd a oes arian yn cael ei ddarparu ar gyfer cefnogi eu haddysg. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Pennaeth Addysg bod grant penodol yn cael ei dderbyn gan y ddwy Sir ac yna ei ddyrannu ar gyfer darparu'r gefnogaeth hon. Eglurwyd bod y gefnogaeth wedi cael ei strwythuro ar draws Gwynedd a Môn gan nodi bod o leiaf un athro yn cael ei gyflogi er mwyn ymweld â'r teuluoedd er mwyn sicrhau eu bod yn deall yr ymrwymiad wrth iddynt gysidro'r penderfyniad o addysgu eu plant gartref. Cadarnhawyd nad oes gofyniad cyfreithiol i gynnal ymweliadau pellach gyda'r teuluoedd yn dilyn y cyfarfod cychwynnol hwn. Tynnwyd sylw gall rhieni sydd yn datgan diddordeb i addysgu eu plant o adref orfod cofrestru i wneud hynny os bydd trefniadau newydd y Llywodraeth yn cael eu cymeradwyo, gan ystyried bydd hyn yn arwain at rhai teuluoedd yn penderfynu addysgu eu plant trwy'r ysgolion. Ychwanegwyd bydd sicrhau bod unrhyw gofrestr o deuluoedd sydd gyda disgyblion yn addysgu o adref yn arwain at gost ariannol i'r Cyngor er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol.

Gofynnwyd pam bod niferoedd disgyblion ysgolion ym mis Medi yn cael ei ddefnyddio wrth ystyried demograffi. Teimlwyd gall hyn gael effaith negyddol ar gyllidebau ysgolion unigol. Nodwyd byddai defnyddio CYBLD (PLASC) mis Ionawr yn rhoi darlun gwahanol ar wir niferoedd ysgolion gan arwain at gyllideb decach. Ymhelaethwyd bod Llywodraeth Cymru wedi addasu fformiwlâu cyllido ysgolion ac yn argymell o fewn yr addasiadau hynny y dylid defnyddio strategau plasg 'ystadegau PLASC' ar gyfer cyllido ysgolion. Mewn ymateb i'r sylwadau, cadarnhaodd y Cyfrifydd Grŵp Ysgolion bod yr awdurdod yn defnyddio niferoedd plant ar gyfer nifer o wahanol ffactorau dros unrhyw flwyddyn ariannol benodol ac felly bod y wybodaeth yn gytbwys ar gyfer y flwyddyn ariannol ddilynol. Ystyriwyd bod defnyddio niferoedd disgyblion mis Ionawr yn ei wneud yn hwyr i gynllunio ar gyfer y gyllideb. Ymhelaethodd y Pennaeth Addysg bod niferoedd disgyblion yn cwympo ym mhob sector ar hyn o bryd ac ni fyddai addasu dyddiad ble gesglir niferoedd ysgolion am newid hynny, ond bydd swyddogion yn ystyried y newid hwn, gan obeithio bydd niferoedd disgyblion mewn addysg yn cynyddu eto yn y blynyddoedd nesaf.

**8. GRANTIAU**

Cyflwynwyd yr adroddiad llafar gan y Cyfrifydd Grŵp Ysgolion.

Eglurwyd bod Llywodraeth Cymru wedi datgan grantiau ychwanegol ar gyfer 2024/25, ar ddiwedd tymor y Nadolig.

Ymfalchïwyd bod y Cyngor wedi derbyn cynnydd i bump o'r grantiau, sef: Grant Pensiwn Athrawon, Grant Safonau, Grant Cefnogi Cydlynwyr ADY a Grant Darpariaeth ADY. Adroddwyd bod cyfanswm y cynnydd hwn oddeutu £3.7miliwn. Eglurwyd bydd yr arian yma yn gwella cynydd balansau ysgolion gan nad ydynt wedi cael y cyfle i gynllunio ei wariant.

Atgoffwyd bod oddeutu £200,000 o arian grant Dyraniad Integreiddio wedi cael ei roi o'r neilltu ar ddechrau'r flwyddyn ariannol er mwyn sicrhau bod arian ar gael os oes plant all-sirol yn symud i gael addysg yng Ngwynedd. Mynegwyd balchder bod y mwyafrif o baneli integreiddio bellach wedi cael eu cynnal a bod oddeutu £120,000 o'r arian hwn yn weddill, a fyddai'n cael ei rannu yn ôl i'r ysgolion.

Cadarnhawyd bod y codiad cyflog ar gyfer athrawon a staff ategol yn uwch na'r hyn a rhagdybiwyd gan yr Adran ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. Pwysleisiwyd bod oddeutu £713,000 o arian grant ar gael i ddigolledu ysgolion o'r cynnydd hwn yn tâl athrawon ac oddeutu £324,000 ychwanegol ar gyfer digolledu tâl staff ategol, er mwyn ymdrechu i sicrhau nad yw ysgolion yn gorwario ar y ffactorau hyn o fewn eu cyllidebau unigol.

Nodwyd hefyd bod addasiad yn cael ei wneud yn dilyn lleihad mewn costau chwyddiant ar gyfer costau nwy'r ysgolion. Eglurwyd bod mwy o arian wedi cael ei glustnodi nag oedd ei angen oherwydd bod y prisiau a broffwydwyd ar ddechrau'r flwyddyn ariannol wedi bod yn uwch na'r wir gost.

Ymhelaethwyd ar wybodaeth a dderbyniwyd ar gyfer grantiau perthnasol ar gyfer 2025/26. Adroddwyd bod pedair grant newydd yn cael eu cyflwyno gyflwynwyd i ysgolion o 2025/26 2024/25 ymlaen yn dilyn adolygiad gan y Llywodraeth, gan gynnwys grantiau: - Safonau Ysgolion, Tegwch, Diwygio a Cymraeg 2050. Cadarnhawyd bod cynnydd o oddeutu 9.4% yng nghyfanswm y grantiau rhwng 2024/25 a 2025/26 sydd ychydig yn uwch na chyfraddau chwyddiant presennol. Eglurwyd na fydd nad ydi y grant Tegwch yn cynnwys Grant Datblygu Disgyblion ar y pwynt yma. Ymhelaethwyd bod y grant Safonau Ysgolion yn gynnydd o £245,292 o'r arian a ddarparwyd yn 2024/25 a fydd yn mynd yn uniongyrchol i'r ysgolion. Adroddwyd bod y grant Tegwch yn cael ei ddyrannu i'r Adran ac yn gosod cyfyngiadau ar sut gall yr arian gael ei wario er mwyn cydymffurfio â thelerau'r grant.

Manylwyd ar y grant Diwygio sydd yn darparu arian grant 'Darpariaeth ADY'. Manylwyd bod cyfanswm y dyraniad grant yn llai na'r hyn a dderbyniwyd yn 2024/25 ond ei fod yn lleihad bychan.

Tynnwyd sylw at y prif Grant Datblygu Disgyblion a oedd yn gyfanswm o £2,827,850 yn ystod y flwyddyn ariannol 2024/25. Eglurwyd nad oes manylion wedi cael eu rhannu ar gyfer y grantiau hyn ar gyfer 2025/26 ymlaen a bod y Cyngor yn disgwyl arweiniad pellach ar gyfanswm y grantiau hyn yn y dyfodol agos.

Diolchwyd i Lywodraeth Cymru am rannu'r wybodaeth am y grantiau yn gynharach na'r arfer, gan alluogi'r Adran ac ysgolion i gynllunio defnydd o'r arian yn briodol ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26.

## 9. UNRHYW FATER ARALL

Dim i'w nodi.

## 10. DYDDIAD AR GYFER Y CYFARFOD NESAF

Cadarnhawyd bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar ddyddiad ym mis Mehefin neu Orffennaf, gyda dyddiad penodol i'w gadarnhau'n fuan.

Dechreuodd y cyfarfod am 3.45 y.h. a daeth i ben am 4:30 y.h.